



## **CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF**

### **BWRDD RHIANTA CORFFORAETHOL**

Cofnodion o gyfarfod y Bwrdd Rhianta Corfforaethol a gynhaliwyd Dydd Mercher, 20 Mawrth 2019 am 2.00 pm ym Bloc F, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach, Tonypany CF40 2XX.

### **Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol - Bwrdd Rhianta Corfforaethol Aelodau oedd yn bresennol:-:-**

Y Cyngorydd C Leyshon (Cadeirydd)

Y Cyngorydd G Hopkins Y Cyngorydd S. Rees-Owen

### **Swyddogion oedd yn bresennol**

Mr G Isingrini, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant  
Ms A Batley, Cyfarwyddwr Gwasanaethau i Blant  
Ms A Browning, Pennaeth y Gwasanaeth  
Ms C Jones, Pennaeth Materion Mynediad a Chynhwysiant  
Mr P Nicholls, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Cyfreithiol  
Ms C Miles, Childcare Solicitor  
Ms J Thomas, Rheolwr Gwella'r Gwasanaeth, Ymgysylltu a Chwynion  
Mr P Griffiths, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Cyllid a Gwella  
Mr. M. Phillips, Rheolwr Gwasanaethau Refeniw  
Ms J Davis, Rheolwr Gwasanaeth - Diogelu a Chymorth  
Ms T Prosser, Pennaeth Gwasanaeth  
Ms R Spry, Gweithwraig Asesu a Datblygu Cynhalwyr Ifainc

#### **42 Ymddiheuriadau am Absenoldeb**

Daeth ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol J. Rosser, R. Yeo ac L. Jones.

#### **43 Datgan Buddiant**

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, doedd dim datganiadau o fuddiant ynglŷn â'r agenda.

#### **44 Cofnodion**

**PENDERFYNODD** yr Aelodau dderbyn y cofnodion o gyfarfod y Bwrdd Rhianta Corfforaethol ar 28 Ionawr 2019 yn rhai cywir.

#### **45 Gostyngiad Treth y Cyngor yn ôl Disgresiwn ar gyfer Pobl sy'n Gadael Gofal**

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Cyflawni a Gwella, a Phennaeth y Gwasanaeth – Refeniw a Budd-daliadau, ddiweddiariad i'r Bwrdd

Rhianta Corfforaethol ar ddefnydd y Cyngor o Gynllun Gostyngiad Treth y Cyngor yn ôl Disgresiwn ar gyfer Pobl sy'n Gadael Gofal yn ystod 2018/19 a gwybodaeth am y datganiad diweddar gan Lywodraeth Cymru ynghylch cymorth Treth y Cyngor ar gyfer Pobl sy'n Gadael Gofal o 1 Ebrill 2019.

Rhoddodd y swyddogion wybod bod y Cyngor, ym mis Rhagfyr 2017, wedi ymrwymo'n llwyddiannus i ymestyn ei Gyfrifoldeb Rhianta Corfforaethol i gynnwys y rheiny sy'n gadael gofal lle mae gyda nhw gyfrifoldeb i dalu Treth y Cyngor. Roedd hyn er mwyn rhoi cymorth i bobl ifainc wrth iddyn nhw ddod i'r arfer â byw yn annibynnol. Dysgodd Aelodau fod y bobl ifainc a fyddai'n elwa o'r cynllun wedi'u hadnabod ac wedi derbyn ffurflen gais fel bod modd i swyddogion benderfynu a ydyn nhw'n gymwys i dderbyn cymorth ychwanegol. Roedd Aelodau wedi'u calonogi i glywed bod 25% o'r 165 o bobl ifainc y mae'r Cyngor yn gofalu amdany'n nhw wedi'u pennu'n rhai sy'n gymwys i dderbyn ystod o ostyngiadau, fel nad oedd rhaid i unrhyw berson ifanc dalu Treth y Cyngor yn 2018/19.

Parhaodd y swyddogion trwy drafod rheoliadau newydd Llywodraeth Cymru a fydd yn sicrhau bod pob unigolyn sy'n gadael gofal ar draws Cymru yn derbyn yr un lefel o gymorth mewn perthynas â Threth y Cyngor o 1 Ebrill 2019.

Roedd Aelodau'n falch bod RhCT wedi bod ar y blaen gan ymgymryd â'r cyfrifoldeb yma fel Rhiant Corfforaethol yn 2017 cyn i Lywodraeth Cymru ddatgan y byddan nhw'n cynnig cymorth ychwanegol. **PENDERFYNWYD** cydnabod y diweddariad.

#### **46 Adroddiad Blynyddol Cynhalwyr Ifainc**

Rhoddodd Gweithiwr Asesu a Datblygu y Cynhalwyr Ifainc ddiweddariad i'r Bwrdd Rhianta Corfforaethol ynghylch Gwasanaeth Cynhalwyr Ifainc Rhondda Cynon Taf a'r adroddiad blynyddol ar gyfer y flwyddyn ddinesig 2017-18. Dysgodd yr Aelodau, er bod 298 o gynhalwyr ifainc yn hysbys i'r gwasanaeth ar hyn o bryd, mae'r garfan fechan o 3 aelod o staff wedi gweithio'n llwyddiannus i ymestyn yr adnoddau sydd gyda nhw mor bell â phosibl. O ran adnoddau, rhoddodd y swyddog wybod bod y galw am gefnogaeth i frodyr/chwiorydd yn uwch nag y gallai'r gwasanaeth ymateb iddo ar hyn o bryd ac felly, mae trafodaethau'n cael eu cynnal gydag Action for Children i gynnig cymorth i frodyr/chwiorydd yn rhan o'i contract gyda RhCT.

Roedd Aelodau'n falch o glywed bod cynnydd o 30% wedi bod o ran atgyfeiriadau o ysgolion a champysau colegau yn ystod tri chwarter cyntaf 2018, sy'n arwydd o lwyddiant cyflwyno'r Gwobrau i Ysgolion. Roedd y cynllun yma wedi'i nodi'n arfer da ymhlith Awdurdodau Lleol ac wedi derbyn adborth cadarnhaol gan Estyn.

Parhaodd y swyddog gan roi gwybod i'r Bwrdd Rhianta Corfforaethol am daith breswyl ychwanegol i gynhalwyr ifainc a oedd wedi'i hariannu trwy ddefnyddio cymorth ychwanegol gan Lywodraeth Cymru. Roedd Aelodau'n falch o glywed bod Gwasanaeth y Cynhalwyr Ifainc wedi derbyn adborth cadarnhaol ar gyfer y daith, gyda rhai'n nodi mai'r daith oedd y peth mwyaf buddiol iddyn nhw. Rhoddodd y swyddog wybod bod yr arian hefyd wedi'i ddefnyddio i gefnogi gweithgareddau i'r teulu cyfan, ac ar gyfer gwyliau byr neu seibiannau i gynhalwyr ifainc a rhieni sy'n gynhalwyr hefyd.

Canmolodd Aelodau'r adroddiad, gan nodi y byddai'r cynnydd cadarnhaol ar gyfer 2017-18 yn cael ei ddatblygu ymhellach yn 2018-19. Roedd hyn yn amlwg o'r camau gweithredu allweddol a'r cyfleoedd cyffrous sydd i'w gweld o'u blaenau.

Gofynnodd un Aelod a oedd anghenion y rhieni'n cael eu hasesu can y garfan a chadarnhawyd bod trafodaethau'n cael eu cynnal yn gynnar yn y broses – mae modd i rieni gael eu hatgyfeirio i Wasanaethau i Oedolion neu dderbyn rhagor o wybodaeth ynghylch y gwasanaethau sydd ar gael i roi cymorth iddyn nhw.

**PENDERFYNODD** Aelodau gydnabod yr adroddiad.

## **47 Adroddiad Swyddog Adolygu Annibynnol**

Rhoddodd Rheolwr y Gwasanaeth Diogelu wybodaeth i'r Bwrdd Rhianta Corfforaethol mewn perthynas â gweithredoedd Gwasanaeth y Swyddog Adolygu Annibynnol. Esboniodd Rheolwr y Gwasanaeth mai nifer cyfartalog y plant sy'n derbyn gofal yn RhCT yw 682, sef cynnydd o 6 ers y cyfnod adrodd diwethaf. Roedd patrwm parhaol o weld nifer uwch o fechgyn na merched, ac roedd y mwyafrif o dan 12 oed.

Roedd Aelodau yn hapus i glywed mai rhoi pwyslais ar y plentyn yng nghanol y broses adolygu yw blaenoriaeth allweddol y gwasanaeth o hyd, a bod yr un swyddog adolygu wrth y llyw trwy gydol y broses er mwyn sicrhau ei fod yn deall y penderfyniadau sy'n cael eu gwneud. Esboniwyd bod pob un o'r Swyddogion Adolygu Annibynnol yn cadeirio adolygiadau plant sy'n derbyn gofal a chynadleddau amddiffyn plant, er mwyn dangos yr ymrwymiad i'r flaenoriaeth yma. Mae hyn nid yn unig yn arwain at gynllunio gwell ond mae hefyd yn cynnig cysondeb i'r plentyn, ac mae'n cyd-fynd ag arfer da fel y mae wedi'i ddiffinio yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.

Rhoddodd y swyddog wybod i Aelodau bod y wefan 'Dwy Ochr' yn parhau i gael ei datblygu, yn dilyn cyflwyniad a dderbyniodd y Bwrdd ym mis Tachwedd 2018. Mae'n cael ei datblygu trwy ymgynghori â phobl ifainc o Fforwm RhCT, Lleisiau o Ofal, y Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuentid a'r rheiny sydd wedi gadael gofal. Roedd Aelodau'n falch o glywed bod y gwasanaeth yn ymgynghori ag amrywiaeth o bobl ifainc o ran cynnwys y wefan, er mwyn sicrhau ei bod hi'n hygyrch.

Aeth Rheolwr y Gwasanaeth ymlaen i roi gwybod bod 1,298 o gyfarfodydd adolygu Plant sy'n Derbyn Gofal wedi'u cynnal yn ystod y cyfnod o 9 mis, sef gostyngiad o 40 o gymharu â'r 9 mis blaenorol. Roedd Swyddogion Adolygu Annibynnol wedi cadeirio 21 o Adolygiadau Plant sy'n Derbyn Gofal ar y cyd a 43 o Adolygiadau'r Gwasanaeth Cymorth Integredig i Deuluoedd.

Cwestiynodd un Aelod rôl y Swyddog Adolygu Annibynnol wrth fonitro ansawdd yn ystod y cyfarfodydd adolygu, a dywedodd y swyddog, petai unrhyw broblemau'n dod i sylw'r Swyddog Adolygu Annibynnol, bydden nhw'n rhoi gwybod i Weithiwr Cymdeithasol ar unwaith, yn hytrach nag aros i'r adolygiad gael ei gynnal lle'r oedd posiblwydd y byddai aelodau'r teulu'n bresennol. Nododd y swyddog hefyd y byddai'r Swyddog Adolygu Annibynnol yn sicrhau nad yw hawliau dynol y plentyn yn cael eu dileu, yn unol â'r Safonau Gofal.

Roedd trafodaethau ynghylch lleoliadau y tu allan i'r sir, a oedd wedi codi o 23.5% i 27.1% yn ystod y cyfnod yma. Roedd Aelodau'n cydnabod, er bod gan RhCT y seilwaith ar gyfer adeiladu'n lleol, mae'n bosibl y byddai hyn y cynyddu'r heriau.

Canmolodd Aelodau Carfanau'r Swyddog Adolygu Annibynnol am eu gwaith parhaol mewn maes gwasanaeth heriol, a **PHENDERFYNWYD** cydnabod cynnwys yr adroddiad.

#### **48 Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol**

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau i Blant wybod i Aelodau mai Tros Gynnal Plant Cymru (TGP) fyddai'r gwasanaeth eiriolaeth newydd yn lle'r Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol, yn dilyn proses ail-dendro ym maes eiriolaeth gyda Merthyr Tudful a Phen-y-bont ar Ogwr. Bydd y trefniadau newydd yn cael eu cyflwyno o 1 Mai 2019, ac yn rhan o gontract TGP, byddan nhw'n dod i gyfarfodydd y Bwrdd Rhianta Corfforaethol yn y dyfodol.

O ran y diweddariad gan y Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol ar gyfer chwarter 3 a oedd gerbron yr Aelodau, rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth wybod bod y niferoedd yn is na'r chwarteri blaenorol, ond roedd hyn yn debygol o fod o ganlyniad i'r broses gaffael.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Cyfarwyddwr Gwasanaeth am y diweddariad byr a nododd bwysigrwydd y gwasanaeth eiriolaeth. **PENDERFYNWYD** cydnabod y diweddariad.

#### **49 Plant sy'n Derbyn Gofal: Deilliannau Addysgol**

Rhoddodd Pennaeth Materion Mynediad a Chynhwysiant ddiweddariad i'r Bwrdd Rhianta Corfforaethol mewn perthynas â deilliannau addysgol Plant sy'n Derbyn Gofal yn RhCT yn dilyn canlyniadau Haf 2018.

Dywedodd y swyddog fod yr adroddiad yn cynnwys data Lleol a Chenedlaethol. Serch hynny, doedd dim modd cymharu'r ddwy set o ddata gan fod y data Cenedlaethol yn mesur plant yn Rhondda Cynon Taf a'r tu allan iddi.

Cafodd Aelodau eu cyfeirio at Dabl 2 yn yr adroddiad lle mae amlinelliad o nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal fesul 10,000 o'r boblogaeth. Nododd Aelodau fod gan Rondda Cynon Taf y nifer trydydd uchaf o Blant sy'n Derbyn Gofal fesul 10,000 o'r boblogaeth, a oedd yn gyson â ffigyrau 2015-16 a 2016-17.

Roedd Aelodau'n cydnabod pa mor bwysig yw hi fod pob plentyn yn y system yn derbyn Cynllun Addysg Personol, ac roedden nhw'n falch o glywed bod canllawiau lleol wedi'u datblygu, a hyfforddi'n cael ei ddarparu i weithwyr proffesiynol i sicrhau eu bod nhw'n llenwi'r Cynlluniau'n effeithiol. Nododd y Swyddog y dylai pob Cynllun Addysg Personol:

- Sicrhau bod gan y plentyn fynediad at wasanaethau a chymorth;
- Gyfrannu at sefydlogrwydd;
- Lleihau'r ymyrraeth ar addysg;
- Nodi anghenion addysg penodol;

- Gosod nodau clir; a
- Cofnodi cynnydd a chyflawniad.

Ychwanegodd y swyddog fod proses gydlynu'r cynlluniau yn cael ei thrafod ar lefel genedlaethol ac mae'n bosibl y byddai gan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 oblygiadau ynglŷn â'i rheoli, a bod llunio templed Cymru gyfan ar gyfer y Cynlluniau Addysg Personol yn cael ei drafod.

Aeth y swyddog yn ei flaen drwy ddweud bod Cyfarwyddwr y Gyfadran wedi gofyn i ddata cymharol Cymru gyfan gael ei gynnwys yn yr adroddiad mewn cyfarfod blaenorol. Oherwydd nad oedd hyn ar gael, mae data cymharol Consortiwm Canolbarth y De wedi ei gynnwys yn Nhabl 4b er gwybodaeth i Aelodau. Roedd Aelodau'n falch o weld ffigyrau calonogol, fel 23.5% o ddisgyblion CA4 yn cyflawni L2+, a oedd yn gyfwerth â chyfartaledd y consortiwm cyfan, ac yn welliant sylweddol o gymharu â'r 5.3% a oedd wedi'i gyflawni y llynedd.

Cyfeiriodd y swyddog yr Aelodau at adran 5.9 yr adroddiad ac roedd yn falch o ddatgan fod data 2017/18 yn awgrymu nad oedd unrhyw blant sy'n derbyn gofal yn gadael ysgol a heb barhau â'u haddysg, mynd i gyflogaeth neu hyfforddiant pellach am y drydedd flwyddyn yn olynol.

Roedd Aelodau wedi'u calonogi wrth nodi fod lefelau presenoldeb Plant sy'n Derbyn Gofal yn debyg i'r hyn sydd i'w weld ar draws y consortiwm. Gofynnodd Aelodau gwestiynau ynglŷn â'r cyfraddau gwahardd ymhlith Plant sy'n Derbyn Gofal a chadarnhaodd y swyddog, er bod nifer y disgyblion sy'n cael eu gwahardd wedi gostwng o'i gymharu â data 2016/17, mae nifer y disgyblion sy'n derbyn gofal yn fach ac felly mae'r data yn newid o un flwyddyn academaidd i'r llall.

Roedd Aelodau'n hapus gyda'r wybodaeth o'u blaenau ond gwnaethon nhw sylw ynglŷn â diffyg sensitifrwydd y data sy'n ei gwneud hi'n anodd meincodi cynnydd Plant sy'n Derbyn Gofal. Dywedodd Cadeirydd y Pwyllgor Craffu – Plant a Phobl Ifainc fod cytundeb y byddai diweddariadau yn y dyfodol yn cynnwys astudiaethau achos, yn dilyn trafodaeth ynglŷn â'r adroddiad gan aelodau'r Pwyllgor Craffu. Roedd hyn er mwyn i Aelodau ddeall yn well cynnydd y bobl ifainc. Cytunodd y Cadeirydd â hyn. Rhoddodd y swyddog wybod i'r Bwrdd bod Estyn yn llunio fframwaith diwygiedig er mwyn rhoi arweiniad i awdurdodau lleol ynglŷn â meincodi cynnydd

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddog am yr adroddiad cynhwysfawr a **PHENDERFYNWYD** cydnabod y diweddariad.

## 50 Trafod cadarnhau'r Penderfyniad isod:-

**PENDERFYNWYD** bod y cyfarfod hwn yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o'r Ddeddf Llywodraeth Leol (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr agendwm nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A o'r Ddeddf.

## 51 Gwasanaethau Cymdeithasol – Cwynion a Chanmoliaethau Chwarterol

Rhoddodd Rheolwr Cwynion, Ymgysylltu a Gwella Gwasanaeth grynodedb i'r Bwrdd Rhianta Corfforaethol o'r trefnau gweithredu ac effeithiolrwydd gweithdrefn cwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol statudol.

Roedd yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am nifer y cwynion a ddaeth i law, natur y cwynion, ac unrhyw wersi a ddysgwyd, yn ogystal â manylu ar ymholiadau gan Gynghorwyr, Aelodau Cynulliad ac Aelodau Seneddol a nifer y cwynion a ddaeth i law.

## **52 Adroddiadau Arolygiaeth Gofal Cymru**

Rhoddodd Rheolwr y Gwasanaethau Preswyl ddiweddariad i'r Bwrdd o ran yr arolygiadau diweddar gan Arolygiaeth Gofal Cymru yng Nghartref Cymuned y Beddau a Chartref Cymuned Bryndâr.

Yn dilyn trafod, **PENDERFYNWYD** cydnabod cynnwys yr adroddiad.

## **53 Adroddiadau Rheoliad 73**

Rhoddodd Rheolwr y Gwasanaethau Preswyl yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am ymweliadau o dan Reoliad 32 wedi eu cynnal yn y tri chartref i blant – Y Beddau, Bryndâr, a Nant-gwyn.

Amlinellodd y swyddog grynodedb o ganlyniadau'r arolygiad. **PENDERFYNWYD:**

- a) nodi cynnwys yr adroddiad.

**Daeth y cyfarfod i ben am 3.40 pm**

**Y Cyngorydd C Leyshon  
Cadeirydd.**